# CANLYNIADAU RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

› **BETH YW'R RHAIN?** Cyfres o weithredoedd gofynnol ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru.

› **O BLE DAETH Y RHAIN?** Dyma'r egwyddorion a amlinellir gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn Amaethyddiaeth (2020).

› **PAM MAE ANGEN Y RHAIN?** Mae'r egwyddorion hyn yn darparu canllaw ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yng Nghymru at y dyfodol, ac yn annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd.

› **A OEDDECH CHI'N GWYBOD?** Mae nifer o ffermydd yng Nghymru eisoes yn defnyddio arferion ffermio a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ogystal â chynyddu gwytnwch eu busnesau fferm.

› **FAINT O'R RHAIN YR YDYCH CHI EISOES YN EU GWNEUD?** Cymerwch olwg ar y rhestr isod; Faint o'r rhain yr ydych chi eisoes yn eu cyflawni drwy reoli eich busnes fferm o ddydd i ddydd?

| CANLYNIAD RHEOLI TIR YN GYNALIADWY | Sut mae hyn yn edrych ar y fferm?* | ✓ Rydw i eisoes yn gwneud hyn |
|---|---|---|
| **Gwella ansawdd aer** | ■ Crafu slyri a/neu sychu tail dofednod yn rheolaidd<br>■ Gwasgaru slyri'n fanwl gywir e.e. system 'esgidiau llusg' a chwistrellu<br>■ Gorchuddio storfeydd slyri a/neu asideiddio slyri<br>■ Integreiddio mwy o goed i gasglu allyriadau amonia o siediau da byw a/neu storfeydd slyri | |
| **Gwella ansawdd dŵr** | ■ Dilyn cynllun rheoli maetholion<br>■ Sicrhau isadeiledd digonol ar gyfer storio slyri a thail<br>■ Cyfyngu mynediad stoc i gyrsiau dŵr<br>■ Rheoli da byw i leihau potsio yn y gaeaf (h.y. pori am gyfnodau byr, defnyddio mwy nag un fynedfa i gaeau, ffensio y tu ôl i stoc)<br>■ Gwella strwythur y pridd drwy ddefnyddio gwndwn llysieuol<br>■ Plannu cnydau gorchudd i leihau erydiad pridd a dŵr ffo mewn systemau gaeafu<br>■ Creu llain glustogi ar ymylon cyrsiau dŵr<br>■ Adfer a rheoli mawndir i gasglu mwy o ddŵr a lleihau llif dŵr<br>■ Plannu coed i ryng-gipio llif trostir a llygryddion cyn iddynt gyrraedd cyrsiau dŵr | |
| **Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau** | ■ Ynni adnewyddadwy<br>■ Lloia yn 24 mis a chynnal bwlch lloia tynn<br>■ Sicrhau'r cynnydd pwysau byw dyddiol uchaf posib cyn ac ar ôl diddyfnu<br>■ Gwella cynhyrchiant a defnydd o laswellt<br>■ Defnyddio porthiant a chnydau a dyfir gartref yn hytrach na phrynu bwyd i mewn<br>■ Priddoedd iach<br>■ Ffermio cymysg<br>■ Geneteg (EBV)<br>■ Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid<br>■ Lleihau'r defnydd o blaladdwyr a chwynladdwyr (Rheoli Plâu Integredig)<br>■ Buddsoddi mewn staff<br>■ Cynaeafu a storio dŵr<br>■ Profi priddoedd i leihau'r defnydd o wrtaith artiffisial<br>■ Bioddiogelwch | |

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

| CANLYNIAD RHEOLI TIR YN GYNALIADWY | Sut mae hyn yn edrych ar y fferm?* | ✓ Rydw i eisoes yn gwneud hyn |
|---|---|---|
| Lliniaru perygl llifogydd a sychder | ■ Lleihau cywasgiad ac erydiad pridd<br>■ Cynaeafu dŵr (pyllau)<br>■ Plannu lleiniau clustogi ar lannau afonydd<br>■ Plannu coed a gwrychoedd i ryng-gipio llif dŵr<br>■ Defnyddio cnydau gorchudd i osgoi pridd moel<br>■ Defnyddio gwndwn llysieuol a glaswelltau sy'n gwreiddio'n ddwfn megis byswellt yn eich cynllun ail-hadu | |
| Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau | ■ Cynnal ardaloedd gwlypach sy'n cynnwys brwyn, gwellt y gweunydd, erwain a phlanhigion eraill sy'n blodeuo mewn corneli gwlyb nad ydynt mor gynhyrchiol.<br>■ Osgoi defnyddio gwrtaith ar laswelltiroedd llawn rhywogaethau nad ydynt wedi'u gwella<br>■ Braenaru ymylon cnydau<br>■ Pentiroedd grawn heb eu gwrteithio/chwistrellu<br>■ Lleiniau ehedydd (lleiniau braenaru mewn cnwd grawn gaeaf)<br>■ Ymylon glaswellt bras sefydlog ar dir âr a thir cylchdro<br>■ Ymylon glaswellt bras ar dir âr<br>■ Ymylon llawn blodau<br>■ Cloddiau chwilod<br>■ Cynnal pyllau<br>■ Rheoli dolydd gwair llawn blodau gwyllt yn draddodiadol. | |
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | ■ Bridio ar gyfer gwella geneteg<br>■ Sicrhau'r diet gorau posibl i anifeiliaid<br>■ Lleihau baich clefydau<br>■ Gwella rheolaeth o laswelltiroedd<br>■ Cynnwys codlysiau megis meillion o fewn rhaglen gylchdro/ail-hau'r fferm<br>■ Gwella dulliau storio a gwasgaru slyri/tail | |
| Dal a storio cymaint o garbon â phosibl | ■ Cynyddu lefelau Deunydd Organig yn y Pridd<br>■ Ystyried dulliau o drin y tir cyn lleied â phosibl wrth ail-hadu<br>■ Adfer a rheoli mawndir<br>■ Gwella rheolaeth o wrychoedd, coed unigol ac ardaloedd coetir presennol<br>■ Cynyddu gorchudd coed a phlannu mwy o wrychoedd | |
| Cyflawni a hybu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid | ■ Adolygu eich cynllun gwella iechyd anifeiliaid gyda'ch milfeddyg<br>■ Defnyddio mesurau atal clefydau e.e. brechu<br>■ Llunio a defnyddio cynllun bioddiogelwch<br>■ Mynd ati'n weithredol i leihau'r defnydd o wrthfiotigau drwy leihau nifer yr achosion o glefydau neu anhwylderau e.e. cloffni ar y fferm<br>■ Cynnal cyfrif wyau ysgarthol cyn defnyddio anthelminitigau | |
| Gofalu a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol | ■ Rheoli SoDdGAu, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, AHNE, a pharciau cenedlaethol<br>■ Gwarchod nodweddion ar eich tir, h.y. adeiladau fferm traddodiadol, adeiladau rhestredig, henebion | |
| Cynnal a gwella mynediad cyhoeddus ac ymgysylltiad gyda chefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol | ■ Cynnal ymweliadau addysgol â'r fferm<br>■ Gwella llwybrau presennol i'w gwneud yn fwy hygyrch<br>■ Cynnig cyfleoedd hamdden | |

**Syniadau yn unig yw'r rhain ac nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhestr hon.*